LANEq111

# Glanhau a pharatoi harneisiau ceffylau i’w defnyddio, o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â glanhau a pharatoi harneisiau ceffylau ar gyfer eu defnyddio, o dan oruchwyliaeth. Mae hyn yn berthnasol i Harneisiau Lledr Seisnig traddodiadol ac yn cynnwys gallu golchi ac ychwanegu sebon cyfrwy, a sgleinio rhannau dethol o'r harnais yn unol â chyfarwyddiadau. Mae'n cynnwys gallu adnabod rhannau sylfaenol o'r harnais a storio harnais yn unol â chyfarwyddiadau.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud o dan gyfarwyddyd goruchwylydd. Gallai hyn fod yn oruchwyliaeth uniongyrchol neu gallai fod trwy roi cyfarwyddiadau a monitro gwaith.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. paratoi'r ardal waith a gosod y deunyddiau glanhau gofynnol, o dan oruchwyliaeth
3. defnyddio deunyddiau glanhau yn unol â chyfarwyddiadau
4. glanhau a pharatoi harneisiau ceffylau, o dan oruchwyliaeth
5. storio harneisiau yn unol â chyfarwyddiadau
6. gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gywir
7. bod yn ymwybodol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am  offer amddiffynnol personol
2. eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn glanhau a pharatoi harneisiau
3. rhannau sylfaenol yr harnais
4. sut i olchi'r harnais ac ychwanegu sebon cyfrwy
5. pwysigrwydd peidio gwlychu'r harnais lledr ormod
6. pwysigrwydd sychu'r harnais yn gywir
7. sut i ddefnyddio deunyddiau glanhau yn gywir ac yn ddiogel
8. sut i ddefnyddio bachau harnais ac offer arall yn gywir
9. y dulliau cywir o waredu gwastraff
10. eich cyfrifoldebau dros iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid

LANEq111

Glanhau a pharatoi harneisiau ceffylau i'w defnyddio, o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq111 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; harnais; glanhau; sgleinio |